Adroddiad ar

Medra Gofal y Graig

Meithrinfa Medra a Medra Gofal y Graig
Ysgol y Graig
Ffordd Talwrn
Llangefni
LL77 7LP

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Medra Gofal y Graig

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Medra Gofal y Graig |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Dr Gwenllian Haf Lansdown Davies, Ms Leanne Marsh. |
| Person â gofal | Becca Edwards, Julie Jones, Rebecca Johnson, Lucy Griffiths, Chloe Thomas, Delyth Owen, Ruth Edwards |
| Nifer y lleoedd | 60 |
| Amrediad oedran y plant | 2-12 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 68 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 24 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 7:30 – 18:00 dydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor ysgol ac adeg y gwyliau |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Cofrestriad newydd ers Medi 2024. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Cofrestriad newydd ers Medi 2024. |

| | |
|---|---|
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 03/06/2025 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Gwella cyfleoedd i blant gael ystod ehangach o gyfleoedd chwarae wrth iddynt gyrraedd yn y bore.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae bron bob plentyn yn hapus ac yn fodlon yn y lleoliad. Maent yn ymgartrefu ac yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni ar ddechrau sesiynau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain yn llwyddiannus drwy amseroedd chwarae rhydd ac yn dewis sut maent yn treulio'u hamser yn effeithiol. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o blant yn symud o gwmpas yr ardaloedd dysgu'n rhwydd a hyderus, sy'n eu galluogi i ddilyn eu diddordebau'n llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain yn hyderus wrth rannu syniadau ac ateb cwestiynau syml. Maent yn awyddus i rannu eu profiadau gydag ymarferwyr gan wybod y byddant yn gwerthfawrogi'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Er enghraifft, mae plant yn awyddus i ddangos y llyfrau maent wedi'u dewis o'r llyfrgell symudol ac yn gwenu wrth i'r ymarferwyr ganmol eu dewisiadau. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol ac yn cydymffurfio'n aeddfed â'r gweithdrefnau, fel gosod eu lluniau yn y man priodol wrth hunangofrestru a chadw eu hesgidiau mewn basged. Maent yn datblygu perthynas gadarnhaol â'r ymarferwyr ac yn gwybod y gallent fynd atynt am gymorth neu gysur pe bai angen. Er enghraifft, mae plant yn mynd at ymarferwyr am gysur ar ôl brifo gan wybod y byddant yn ymateb yn dyner. O ganlyniad, mae bron bob plentyn yn teimlo'n hyderus a diogel yn y lleoliad.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cymdeithasu'n dda ac yn barod i rannu teganau ac adnoddau. Maent yn cymryd tro gyda'u ffrindiau yn ddiffwdan ac yn cydweithio'n dda wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn hapus i weithio gydag eraill wrth greu cwrs antur gan ddefnyddio planciau pren, cyn cymryd tro i gerdded ar hyd y llwybr. Mae plant yn cymdeithasu â'i gilydd yn naturiol yn ystod amser byrbryd ac amser cinio, ac yn sgwrsio gyda ffrindiau ac ymarferwyr yn fyrlymus.

Mae bron bob plentyn yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n ddiwyd wrth fynd i'r afael â thasgau ac yn arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae plant yn defnyddio sisyrnau i dorri stribedi papur cyn eu haddurno trwy dorri blodau a'u gludo arnynt yn fedrus. Mae bron bob plentyn yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas ac yn mwynhau chwarae a defnyddio'u dychymyg. Er enghraifft, maent yn dangos brwdfrydedd wrth chwarae yn y gegin fwd gan esgus gwneud uwd i 'Dadi Arth'. Maent yn dyfalbarhau'n dda ac yn awyddus i ddweud wrth ymarferwyr bod yr uwd yn 'rhy boeth'.

Mae bron bob plentyn yn dewis gweithgareddau yn ôl eu diddordebau ac yn datblygu medrau annibynnol da. Er enghraifft, maent yn gwisgo esgidiau a gwisgoedd o'r ardal chwarae rôl heb gymorth ac yn casglu brwsys ac arllwys paent yn hyderus. Yn ogystal, yn

ystod amser byrbryd, mae bron bob plentyn yn awyddus i olchi dwylo, arllwys diod a didoli grawnfwyd a ffrwythau i'w platiau yn gwbl annibynnol cyn helpu i olchi llestri ar ôl gorffen.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Maent yn dangos dyfalbarhad ac yn ymgolli'n llwyr yn eu chwarae. Mae'r mwyafrif yn gwrando'n astud ar eraill ac yn ymateb mewn brawddegau drwy gyfrwng y Gymraeg yn llwyddiannus/fedrus. Mae'r rhan fwyaf yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn troi'r tudalennau mewn trefn a siarad am y cymeriadau a'r lluniau gyda'u ffrindiau. Maent yn defnyddio amrywiaeth o offer yn fedrus i greu patrymau yn y paent ac i farcio ar lechen ddigidol wrth greu rhestr archeb bwyd yn y gegin.

Mae bron bob un o'r plant yn datblygu medrau rhifedd cadarn ac yn defnyddio iaith fathemategol gywir wrth rifo sawl corcyn sydd ar blât a mesur eu taldra. Maent yn cymhwyso gwybodaeth fathemategol yn fuddiol wrth chwarae yn yr ardaloedd trwy drafod pa degan yw'r mwyaf.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n llwyddiannus ac maent yn deall bod offer digidol yn cael effaith ar eu bywydau bob dydd. Mae bron bob un o'r plant yn datrys problemau yn naturiol yn eu chwarae. Er enghraifft, maent yn ystyried y dull gorau i ddringo i fyny i ben twnel pren heb gymorth ymarferydd.

Mae bron bob un o'r plant yn dangos medrau corfforol cryf, er enghraifft wrth ddringo'r ysgol a cherdded ar hyd cwrs rhwystrau yn hyderus. Mae medrau modur mân bron bob un o'r plant yn gryf. Er enghraifft, maent yn defnyddio siswrn i dorri llinyn i greu cymeriad a gefel bwyd i osod conau pinwydd ar blât.

Mae bron bob un yn dangos medrau creadigol cadarn. Maent yn mynegi eu hunain yn effeithiol wrth chwarae rôl o fewn cyd-destun go iawn, gan ymgolli'n llwyr am gyfnod o amser wrth wisgo esgidiau lliwgar a thrin gwallt ei gilydd. Maent yn gwneud penderfyniadau deallus am ba offer i'w defnyddio wrth weithio'n greadigol; er enghraifft, maent yn dewis pa liw paent a blodau sydd eu hangen i greu breichledau deiniadol.

Mae medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol bron bob un o'r plant yn gryf ac maent yn cydweithredu'n dda â'i gilydd wrth chwarae. Maent yn gwrtais ac yn dangos parch at eraill. Ar y cyfan, mae bron pob un o'r plant yn dangos medrau annibyniaeth effeithiol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae ymarferwyr yn rhoi gweithdrefnau cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu. Maent yn defnyddio'r arferion o'u hyfforddiant ar ddiogelu plant yn effeithiol ac yn deall eu dyletswyddau'n dda. Mae'r rhan fwyaf wedi cwblhau hyfforddiant cymorth

cyntaf ac maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau’n drylwyr ar ffurf ddigidol. Maent yn sicrhau bod rhieni’n ymwybodol o’r digwyddiad yn syth ac yn cydnabod eu bod wedi derbyn y wybodaeth. Mae ymarferion tân yn cael eu cwblhau'n rheolaidd a'u cofnodi'n effeithiol. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o weithdrefnau er mwyn atal lledaenu heintiau. Er enghraifft, maent yn annog plant i olchi eu dwylo ac yn dilyn arferion priodol wrth drin bwyd a newid cewynnau. Maent yn hyrwyddo bwyta’n iach a gweithgareddau ymarfer corff yn llwyddiannus ac yn sicrhau cyfleoedd buddiol i dreulio amser yn yr awyr iach. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â’r plant. Maent yn siarad yn dyner ac yn eu trin gyda gofal a pharch. Maent yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hybu ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn denu sylw plant at weithgaredd arall os ydynt yn cael trafferthion wrth rannu neu gymryd tro, ac yn rhoi esboniad clir pan nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol. Mae’r ymarferwyr yn canmol y plant yn rheolaidd ac yn dathlu eu hymdrechion yn gyson. O ganlyniad, mae’r plant yn datblygu eu hunanhyder yn fuddiol. Mae ymarferwyr yn arfer medrau cymdeithasol effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â’r plant ac yn bwydo a modelu iaith yn gyson. Mae ymarferwyr yn cefnogi’r plant i ddatblygu i fod yn barchus trwy annog cwrteisi a rhoi canmoliaeth wrth iddynt ddweud ‘diolch’ neu ‘os gwelwch yn dda’.

Mae ymarferwyr yn dilyn trefniadau pwrpasol er mwyn adnabod a chefnogi anghenion unigol plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn casglu digon o wybodaeth am hoffterau ac anghenion unigol cyn i'r plant gychwyn yn y lleoliad. Mae hyn yn eu galluogi i gynllunio'n effeithiol i ddarparu ar gyfer eu hanghenion unigol. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn gwybod pa bryd i ddarparu mwy o gefnogaeth. Er enghraifft, maent yn sicrhau eu bod yn eistedd yn agos i blant sy’n cael trafferthion cymryd rhan mewn gweithgareddau torfol ac yn darparu teganau bach troelli i’w helpu i setlo yn ystod amser cylch. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith i gyfeirio plant am gymorth gan asiantaethau allanol, os oes angen. Mae ymarferwyr yn cyfathrebu’n effeithiol â rhieni ac yn rhannu gwybodaeth gyson am ddatblygiad eu plant trwy negeseuon digidol preifat neu ar lafar ar ddiwedd sesiwn.

### Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o anghenion bob plentyn. Maent yn cynllunio’r ardaloedd yn effeithiol er mwyn ymateb yn briodol i’w dulliau dysgu unigol. Maent yn ymyrryd yn synhwyrol ac yn defnyddio cwestiynau sy’n annog y plant i feddwl yn effeithiol. O ganlyniad, mae bron bob un o’r plant yn datblygu eu medrau yn gadarn. Mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd buddiol i’r plant gymryd risgiau addas, er enghraifft trwy eu hannog i ddringo ysgol o dan oruchwyliaeth ofalus er mwyn iddynt brofi uchder. Mae ymarferwyr yn

arsylwi'n gyson ac yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn llwyddiannus i gynllunio gweithgareddau sy'n hybu datblygiad y plant. Maent yn cadw cofnod unigol gwerthfawr o gyflawniad a datblygiad plant yn eu medrau ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i adrodd i rieni yn effeithiol iawn

Mae'r ymarferwyr yn cynnig profiadau a gweithgareddau diddorol sy'n hybu chwilfrydedd ac annibynniaeth y plant yn fedrus. Er hyn, mae ymarferwyr yn cyfyngu ar y dewis rhydd i blant ar ddechrau pob sesiwn sy'n lleihau'r cyfleoedd iddynt ddatblygu eu hannibyniaeth ymhellach.

Mae ymarferwyr yn modelu iaith raenus ac yn cefnogi medrau ieithyddol y plant yn gyson. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r plant fwynhau amrywiaeth o lyfrau, ac mae llyfrau perthnasol ar gael ar gyfer y plant ar draws gwahanol ardaloedd y ddarpariaeth sy'n adlewyrchu'r ardal maent wedi eu lleoli ynddi. Maent wedi paratoi cyfleoedd amrywiol i blant ddechrau creu marciau a datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Er enghraifft, mae'r ardal swyddfa a'r gegin yn galluogi'r plant i ddeall pwrpas ysgrifennu trwy greu rhestr siopa.

Mae ymarferwyr yn annog medrau rhifedd y plant yn llwyddiannus trwy amrywiaeth o gyfleoedd diddorol, megis mesur hyd gwrthrych gan ddefnyddio tâp mesur neu gyfrif wrth daro sosban gyda llwy. Mae ymarferwyr yn darparu amrediad o adnoddau pwrpasol sy'n caniatáu i'r plant ddatblygu medrau cydbwyso corfforol cadarn. O ganlyniad, maent yn hyderus yn defnyddio'r sgwteri, symud ar hyd cwrs rhwystrau a dringo'r ysgol. Mae ymarferwyr yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau sy'n datblygu medrau digidol y plant yn llwyddiannus.

Mae darpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant yn gadarn. Mae ymarferwyr yn arddangos lluniau o deuluoedd y plant sy'n gyfle i ddathlu hunaniaeth a diwylliant pob plentyn. Mae ymarferwyr yn cyflwyno gweithgareddau sy'n datblygu medrau ysbrydol plant yn effeithiol ac yn trafod agweddau fel hapusrwydd a charedigrwydd fel rhan naturiol o'u sgyrsiau dyddiol. Mae ystod eang o adnoddau ar gael sy'n hybu ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau gwahanol ac amrywiaeth, gan gynnwys gwisgoedd, esgidiau, baneri, llyfrau ac ystod o ddoliau gwahanol. Mae hyn yn helpu'r plant ddysgu i fod yn ddinasyddion goddefgar ac i ddeall gwahaniaethau yn y byd o'u cwmpas.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn rheoli unrhyw beryglon posibl yn effeithiol. Mae asesiadau risg trylwyr ar waith, sy'n amlinellu unrhyw beryglon posibl a'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Mae arweinwyr yn monitro a gwirio dogfennau'n rheolaidd, sy'n sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu'n cael eu

cwblhau'n amserol. Maent yn delio ag unrhyw beryglon yn gyflym ac yn effeithiol. Mae gan arweinwyr weithdrefnau cadarn ar waith i gadw'r plant yn ddiogel sy'n sicrhau bod neb yn cael mynediad heb ganiatâd.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd dysgu a chwarae yn lleoliadau cyfforddus a chysurus gyda digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Maent yn sicrhau bod plant yn datblygu synnwyr o berthyn drwy arddangos esiamplau o'u gwaith a ffotograffau o'u teuluoedd. Mae ystafelloedd chwarae wedi eu trefnu'n bwrpasol i ennyn diddordeb a chefnogi datblygiad ym medrau'r plant. Mae amrywiaeth o ddeunyddiau dilys ac adnoddau naturiol ar gael sy'n annog chwilfrydedd plant. Er enghraifft, maent wedi gosod hen deipiadur a ffôn, planhigion byw, offer trin gwallt a llestri te yn yr ardaloedd er mwyn ysbrydoli creadigrwydd y plant yn eu chwarae. Mae arweinwyr yn creu awyrgylch tawel a heddychlon trwy ddefnyddio lliwiau a deunyddiau naturiol i addurno'r ystafelloedd chwarae. Mae'r ardal chwarae tu allan yn cynnig nifer o weithgareddau a chyfleoedd pwrpasol i blant chwarae a datblygu ymwybyddiaeth o'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, mae'r gegin fwd gyda pherlysiau a chynhwysion naturiol i ychwanegu i'r tywod yn cynnig cyfleoedd buddiol iddynt arbrofi a chwarae rôl yn naturiol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ystod eang o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael yn yr ystafelloedd chwarae. Mae'r rhain o ansawdd da ac yn cael eu storio ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol heb ymyrraeth oedolyn. Mae'r adnoddau'n lân ac mae'r ymarferwyr yn cadw cofnodion trylwyr i sicrhau ansawdd a glendid yr offer a'r teganau.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan arweinwyr weledigaeth gadarn ar gyfer sicrhau bod pob plentyn yn hapus a diogel yn y lleoliad. Maent yn sicrhau bod y datganiad o ddiben yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r lleoliad yn llwyddiannus. Maent wedi llwyddo i greu awyrgylch gofalgar a chartrefol, lle mae ymarferwyr a phlant yn cael eu parchu.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel a chadarn ac mae ganddynt drefniadau effeithiol ar gyfer gwerthuso perfformiad ymarferwyr. Mae arweinwyr yn cefnogi'r ymarferwyr yn llwyddiannus ac yn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol, hyfforddiant a goruchwyliaeth gyson. Mae arweinwyr yn adolygu eu polisïau yn unol â gofynion ac yn eu gweithredu'n dda. Ni nodwyd unrhyw achos o dorri rheoliadau na safonau gofynnol cenedlaethol yn ystod yr arolygiad.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllid yn ofalus ac yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau er mwyn cynnig darpariaeth o safon dda i'r plant. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion y blynyddoedd cynnar yn effeithiol i gefnogi lles a medrau emosiynol y plant trwy brynu offer addas megis bwrdd golau.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant trylwyr ac effeithiol. Maent yn cydweithio’n agos a llwyddiannus ag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a’r mudiadau cefnogi. Mae’r ymarferwyr wedi rhannu arfer dda â lleoliadau eraill ar sut i gyflwyno iaith arwyddion a’r defnydd o gelf fel adnodd i asesu datblygiad plant. Maent yn ymateb yn bwrpasol i unrhyw argymhellion ar gyfer gwella. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o’r meysydd i’w datblygu ac o’u cryfderau. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn cydweithio ag asiantaethau allanol ac yn gofyn cyngor ynglŷn â datblygiad plant er mwyn sicrhau bod y plant yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr berthynas gref â’r rhieni, ac mae sesiynau aros a chwarae cyn i’r plant ddechrau yn y lleoliad yn atgyfnerthu hyn. O ganlyniad, mae’r plant yn ymgartrefu yn y lleoliad yn hwylus. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o ap teulu i hysbysu rhieni o waith yr wythnos, digwyddiadau a damweiniau. Maent yn cynnig arweiniad i rieni ar sut i gefnogi eu plant adref yn effeithiol trwy rannu caneuon a hwiangerddi ar god QR. Mae ymarferwyr yn darparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant yn briodol mewn adroddiadau ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae ymarferwyr yn cydweithio’n effeithiol â’r ysgol leol ac mae hyn yn paratoi’r plant yn fuddiol ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ymweld â’r gymuned leol, er enghraifft trwy fynd i’r siop leol i brynu cynhwysion i wneud bara.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/08/2025